**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Amgylched a Chyllid a gynhaliwyd Nos Lun, Mehefin 17eg 2019 am 7.15 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cyng: Gaynor Wood-Tickle (Cadeirydd), Roy Tickle, Colin L Hughes, Guto Lloyd-Davies, Glenn Swingler, Rhys Thomas; & Jenny Barlow (Clerc Y Dref)

**Ymddiheuriadau:** Cyng Catherine Jones & Rachael Ayres.

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod mis Mehefin.

**1. Datgan Diddordeb Personol: Dim**

**2. Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Amgylchedd a Chyllid a gynhaliwyd ar Fai 20fed 2019.** (Mae gwall sillafu yn eitem 3 o gyfarfod mis Mai a gafodd ei gywiro yn ogystal â'r gair Maer a ddylai fod wedi darllen y Cadeirydd).

**3. Materion yn codi:**

Trafodwyd yr e-bost a dderbyniwyd gan Lyndsey Tasker ar ran Dinbych yn blodeuo. Gofynnodd cynghorwyr y dref i glerc y dref ysgrifennu at Lyndsey i ddweud y byddent yn hoffi cael mwy o flodau yn Ninbych uchaf y flwyddyn nesaf. Rhoddwyd manylion lleoliadau addas yn ôl y gofyn.

**4. A - <u>Amgylchedd</u>** - Dim.

**B - <u>Cyllid</u>**

**1. Cyfrifon:** Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| (1) Idiom, cyfieithu 29.04.19 (Rhif siec 006789) | - | £162.36 |
| (2) ADT, monitor CCTV (Rhif siec 006790) | - | £222.00 |
| (3) Zen, Internet 03/06/19 - 02/07/19 (Rhif siec 006791) | - | £36.40 |
| (4) Catalyst, Mai wrth gefn (Rhif siec 006792) | - | £4.62 |
| (5) Humphreys Signs Ltd 6 baner (dyfynbris) (Rhif siec 006793) | - | £288.00 |
| (6) ASL, costau llungopïwr 09/05/19 - 31/05/19 (Rhif siec 006794) | - | £46.76 |
| (7) Events Insurance, tan gwyllt (dyfynbris) (Rhif siec 006795) | - | £256.64 |

(8) Catalyst, Ffon mis Ebrill - £29.98

(Rhif siec 006796)

(9) Ennerdale Consulting, afoneb mis Mai

(I gynwyd costau cyfreithiwr Anthony Collins - £2,345.88

(Rhif siec 006797)

(10) Workplace-Worksafe Ltd, gwisg tywyswyr teithiau - £136.94

(Rhif siec 006798)

**Cyfanswm y Taliadau £3529.58**

2. **Adroddiad ariannol 01.05.19 - 31.05.19**.Nodwyd a'i gydbwyso â'r llyfr arian parod £55,552.22.

3. **Credyd -** Nodwyd y credydau canlynol.

a) £9.00 - rhan daliad costau teithio i Resffordd gan Gyngor Cymuned Llanfair.
b) £1,167.31- Amgueddfa Dinbych. Rhan daliad Yswiriant blynyddol.

4. **Dyfynbris:**
S Williams, Goleuadau Nadolig. £8154.00 + TAW - Gohiriwyd tan Fis Gorffennaf er mwyn cael mwy o fanylion.

5. **Cymorthdaliadau:**

**a) Trafodwyd y ceisiadau canlynol.**
i) CSP Dinbych (gohiriwyd o gyfarfod mis Mai) Trafododd y cynghorwyr tref y cais a theimlent na fyddai arian yn cael ei ddyrannu ar yr achlysur hwn. Mae yna gydbwysedd iach yn y cyfrif banc ac ni ddefnyddiwyd yr arian a ddyrannwyd gan y cyngor tref y llynedd. Hoffai'r cynghorwyr tref nodi, os, yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol, nad oes digon o arian i dalu cost cynnal a chadw'r fynwent y dylid cyflwyno cais arall.
ii) Celf Flodau Dinbych (gohiriwyd o gyfarfod mis Mai) Cymorth S137 £100.00
(Rhif siec 006799)
iii) Dinbych yn ei Blodau. Cymorth S137 £865.92
(Rhif siec 006800)
iv) St Kentigern Cymorth S137 £100.00
(Rhif siec 006801)

b) Llythyrau o ddiolch / rhoddion gan:
Ailgylchu Gwisg Ysgol Sir Ddinbych, cymorth o £1,500.00
CAB Sir Ddinbych - Rhodd elusen y Maer £402.82

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.49yh.

Arwyddwyd:……………………………………………………………

Dyddiad………………………